# Cynrychiolwyr Etholedig (Gwahardd Twyll)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

1 Trosedd o dwyll
2 Trosedd o wneud honiad ffug
3 Teitl byr, dyfodiad a chwmpas

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

# MESUR

ER MWYN

Creu troseddau yng nghyswllt cyhoeddi datganiadau ffug neu gamarweiniol gan gynrychiolwyr etholedig; ac at ddibenion cysylltiedig.

DEDDFER gan Ardderchocaf Fawrhydi y Brenin, gyda chyngor a chaniatâd yr Arglwyddi Ysbrydol a Daearol, ac aelodau Tŷ'r Cyffredin, sydd wedi ymgynnull yn y Senedd bresennol hon, a thrwyddynt a thrwy eu hawdurdod, fel a ganlyn:-

**1 Trosedd o dwyll**

(1) Bydd yn drosedd i gynrychiolydd etholedig sy'n gweithredu felly wneud datganiad cyhoeddus y gŵyr sy'n gamarweiniol, ffug neu dwyllodrus.

(2) Yn y Ddeddf hon, mae "cynrychiolydd etholedig" yn cynnwys —

- (a) Aelod Seneddol;
- (b) Aelod o Senedd yr Alban,
- (c) Aelod o Senedd Cymru,
- (d) Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon,
- (e) Comisiynydd Heddlu a Throsedd,
- (f) maer etholedig.

(3) Yn y Ddeddf hon, golyga "datganiad cyhoeddus" ddatganiad llafar neu ysgrifenedig a wneir gan gynrychiolydd etholedig i'r cyhoedd a fwriedir i hysbysu'r cyhoedd am—

- (a) ffeithiau perthnasol sy'n wybyddus i'r cynrychiolydd etholedig, neu
- (b) gam penodol y bwriada'r cynrychiolydd etholedig gymryd.

(4) Yn y Ddeddf hon, mae "datganiadau cyhoeddus" yn cynnwys datganiadau a wneir trwy —

- (a) gyfryngau cymdeithasol,
- (b) darlledu,
- (c) podlediad, a
- (d) deunydd etholiadol argraffedig, ond nid y rhain yn unig.

(5) Bydd rhywun a geir yn euog o drosedd dan isadran (1), o'i gollfarnu'n ddiannod, yn wynebu dirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y gyfradd safonol a'i h/anghymhwyso rhag

sefyll mewn etholiad i'r sefydliadau a'r swyddi a restrir yn isadran (2) am gyfnod o hyd at 10 mlynedd.

(6) Bydd yn amddiffyniad i unrhyw un a gyhuddir o drosedd dan isadran (1) ddangos, adeg y drosedd—

(a) nad oedd yn gwybod, neu na fuasai'n rhesymol disgwyl iddi/o wybod, fod y datganiad cyhoeddus yn gamarweiniol, ffug neu dwyllodrus;

(b) na fu ganddi/o unrhyw ran mewn achosi na chaniatáu gwneud y datganiad cyhoeddus;

(c) ei b/fod wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y datganiad cyhoeddus yn gywir; neu

(d) iddo/i weithredu er budd diogelwch cenedlaethol.

(7) Rhaid cychwyn achosion am unrhyw drosedd o'r fath ymhen 5 mlynedd o ddyddiad y gwnaed y datganiad cyhoeddus.

(8) Ni ddylid cychwyn unrhyw achosion am drosedd dan yr adran hon yng Nghymru na Lloegr heb gydsyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

(9) Ni ddylid cychwyn unrhyw achosion am drosedd dan yr adran hon yng Ngogledd Iwerddon heb gydsyniad Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon.

## 2 Trosedd o wneud honiad ffug

(1) Bydd yn drosedd i unrhyw un yn fwriadol wneud cwyn neu honiad ffug, dibwys neu wamal fod trosedd dan adran 1 wedi ei chyflawni.

(2) Bydd rhywun a geir yn euog o drosedd dan isadran (1) o'i gollfarnu'n ddiannod, yn wynebu dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y gyfradd safonol.

## 3 Teitl byr, dyfodiad a chwmpas

(1) Gellir galw'r Ddeddf hon yn Ddeddf Cynrychiolwyr Etholedig (Gwahardd Twyll) 2022.

(2) Daw'r Ddeddf hon i rym ar derfyn y cyfnod o chwe mis yn cychwyn ar ddiwrnod ei phasio.

(3) Mae'r Ddeddf hon yn ymestyn i Gymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

# Cynrychiolwyr Etholedig (Gwahardd Twyll)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

# M E S U R

ER MWYN

Creu troseddau yng nghyswllt cyhoeddi datganiadau ffug neu gamarweiniol gan gynrychiolwyr etholedig; ac at ddibenion cysylltiedig.

*Cyflwynwyd gan Liz Saville Roberts*
*cefnogwyd gan Richard Thomson, Caroline Lucas, Claire Hanna, Bell Ribeiro-Addy, Stephen Farry, Hywel Williams a Ben Lake.*

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin, i'w Argraffu, 28 Mehefin 2022.

© Hawlfraint Seneddol Tŷ'r Cyffredin 2022
*Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn dan delerau'r Drwydded Seneddol Agored, a gyhoeddir ar www.parliament.uk/site-information/copyright*

CYHOEDDWYD TRWY AWDURDOD TŶ'R CYFFREDIN